# Atodiad 1

# Dialysis Dros Dro sydd ddim yn y Ganolfan (DAFB) ar gyfer oedolion 18 oed a hŷn

## Polisi Comisiynu: CP33

# Cwestiynau Cyffredin

**C: Ar gyfer pwy mae'r canllaw hwn?**

**A** Mae'r canllaw hwn ar gyfer cleifion sy'n oedolion (18 oed a hŷn) sy'n derbyn Hemodialysis neu Dialysis Peritoneol arferol; yn byw yng Nghymru ac wedi cofrestru gyda meddyfga deulu yng Nghymru neu'n byw yn Lloegr ac wedi cofrestru gyda meddygfa deulu yng Nghymru.

**C: Beth yw DAFB?**

**A** Dialysis sydd ddim yn y Ganolfan (DAFB) yw pan fydd claf yn dymuno derbyn dialysis mewn man heblaw am eu 'Canolfan' ddialysis arferol, sydd naill ai mewn uned arennau neu gartref. Gall hyn fod at ddibenion hamdden (gwyliau), teithio ar gyfer gwaith neu bleser ac i gwmpasu unrhyw achlysuron eraill sy'n arwain at glaf angen dialysis o'u 'canolfan' dialysis arferol.

**C: A allaf i gael DAFB?**

**A:** Rhaid i chi gael cymeradwyaeth gan eich clinigydd cyn i DAFB gael ei gytuno.

**C: A allaf i drefnu fy DAFB fy hun?**

**A:** Rydym yn cynghori cleifion i ddefnyddio eu 'cydlynydd gwyliau' neu nyrs enwol wrth drefnu DAFB. Ar gyfer POB trefniant DAFB sy'n digwydd yn y DU, mae **Dialysis Freedom CIC**, mewn partneriaeth â Kidney Care UK, yn cynnig cyngor ymarferol drwy www.dialysisfreedom.co.uk, info@dialysisfreedom.co.uk neu Ffôn: 01509 808668.

Ar gyfer pob DAFB sy'n digwydd y tu allan i'r DU, cynghorir cleifion i ddefnyddio **Freedom The Dialysis Holiday Specialists** drwy www.holidaydialysis.co.uk e-bost: info@holidaydialysis.co.uk neu Ffôn: 01509 815999.

**C: Ydy hi'n hawdd trefnu DAFB?**

**A:** Er bod angen rhywfaint o gynllunio ar gyfer DAFB, bydd eich tîm arennol yn gallu eich helpu i drefnu DAFB. Mae nifer o wefannau a rhifau ffôn defnyddiol ar ddiwedd y daflen wybodaeth hon a fydd yn helpu.

Mae'n well rhoi cymaint o rybudd â phosibl cyn i chi gynllunio mynd i ffwrdd. Mae hyn fel arfer yn 4 wythnos o leiaf os ydych o fewn y DU a 3 mis os ydych

chi'n teithio y tu allan i'r DU. Argymhellir sicrhau bod gennych yr holl ddogfennau teithio perthnasol sydd eu hangen ar gyfer teithio dramor mewn digon o amser cyn trefnu ymweliadau â gwledydd eraill er enghraifft, pasbort dilys, Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC) dilys neu Gerdyn Yswiriant Iechyd Byd-eang y DU (GHIC).

Os bydd angen teithio mewn argyfwng (fel angladd), lle nad yw'n bosibl gweithio o fewn isafswm o 4 wythnos (DU) a 3 mis wrth deithio y tu allan i'r DU, rydym yn cynghori cleifion i weithio gyda'u huned dialysis a'u tîm clinigol cyn gynted â phosibl.

**C: A fydd yn rhaid i mi dalu am fy DAFB?**

**A:** Ni fydd pob DAFB yn cael ei gynnwys gan GIG Cymru, bydd y cyllid yn dibynnu ar y wlad rydych chi'n bwriadu mynd iddi. Bydd angen i chi wirio cyn i chi gadarnhau eich archeb a oes unrhyw ffioedd ychwanegol i chi. **Rhaid rhoi cymeradwyaeth cyn gwneud unrhyw archeb.**

Yn gryno:

| Senario | Llwybr | Ariennir gan CBCGC | Ariennir gan y claf |
|---|---|---|---|
| Claf o Gymru eisiau DAFB yng NGHYMRU | Trefniadau lleol rhwng unedau Dialysis Cymru | **BYDD** - Byddai cyllid yn cael ei ddarparu gan CBCGC fel rhan o'r contractau Cytundebau Tymor Hir (LTA) gyda darparwyr Cymru. | **Na fydd** |
| Claf o Gymru eisiau DAFB yn y DU (ac eithrio Cymru) mewn uned a gomisiynwyd gan y GIG | Byddai unedau dialysis yn trefnu rhwng unedau'r DU neu trwy Dialysis Freedom CIC mewn partneriaeth â Kidney Care UK | **BYDD** - Byddai cyllid yn cael ei roi gan CBCGC i uned a gomisiynwyd gan y GIG sy'n derbyn y claf | **Na fydd** |
| Claf o Gymru eisiau DAFB yn y DU (ac eithrio Cymru) mewn | | **Na fydd** | **Bydd** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| uned nad yw'n cael ei chomisiynu gan y GIG (Uned breifat) | | | |
| Claf o Gymru eisiau derbyn DAFB y tu allan i'r DU ond o fewn yr UE/AEE/Y Swistir | Cynghori ddefnyddio arbenigwyr Freedom Th Dialysis Holiday | **BYDD - Dim ond** ar gyfer unedau dialysis sy'n cael eu darparu gan y CBCGC y byddai cyllid yn cael ei roi<br>• Unedau dialysis sy'n cael eu rhedeg gan y wladwriaeth / llywodraeth sy'n derbyn GHIC/EHIC | **NA FYDD** – ar gyfer unedau dialysis sy'n cael eu rhedeg gan y wladwriaeth/y Llywodraeth<br><br>**BYDD**<br>• Lle mae gan wlad system talu canrannol, sy'n golygu efallai y bydd angen i chi dalu rhan o gost sesiwn dialysis. Mae'n bwysig gwirio hyn ymlaen llaw.<br>• Nid uned arennol yw hon a ddarperir gan y wladwriaeth/Llywodraeth. |
| Claf o Gymru eisiau derbyn DAFB y tu allan i'r DU, gwlad sydd â chytundeb cilyddol gyda'r DU | Cynghori i ddefnyddio arbenigwyr Freedom The Dialysis Holiday | **BYDD** – Byddai cyllid yn cael ei roi gan y CBCGC ar gyfer unedau dialysis sy'n cael eu<br>• rhedeg gan y Wladwriaeth/Llywodraeth<br><br>Yn y rhan fwyaf o achosion byddai hyn yn rhad ac am ddim neu am gost is | **NA FYDD** – ar gyfer unedau dialysis sy'n cael eu rhedeg gan y wladwriaeth/y Llywodraeth<br><br>**BYDD**<br>• Ar gyfer unedau dialysis nad ydynt yn ganolfannau preifat wedi'u cynnwys yn y cytundeb hwn |
| Claf o Gymru eisiau derbyn DAFB ar long fordaith | Cynghori i ddefnyddio cwmni mordeithio sy'n arbenigo | **BYDD** – Byddai'r cyllid yn cael ei ad-dalu gan CBCGC naill ai a) cost wirioneddol y driniaeth neu (b) tariff cyhoeddedig y GIG[1], pa | **BYDD**<br>Os yw cyfanswm cost y driniaeth yn uwch na chyfradd tariff a gyhoeddwyd gan y GIG (a all fod yn sylweddol |

[1] NHS England » 2026/27 NHS Payment Scheme

| | | | |
|---|---|---|---|
| | mewn dialysis | un bynnag sy'n is ac yn amodol ar y canlynol: rhaid i'r driniaeth ddigwydd ar fordaith sy'n aros o fewn yr UE/AEE, y Swistir, neu wledydd sydd â chytundeb gofal iechyd cilyddol gyda Llywodraeth y DU. | llai na'r costau triniaeth breifat) |
| Mae claf o Gymru eisiau derbyn DAFB mewn gwledydd heb gytundeb cilyddol gyda'r DU | Cynghori i ddefnyddio arbenigwyr Freedom the dialysis holiday | **Na fydd** | **Bydd** |

**C: A oes unrhyw gymorth ariannol ychwanegol ar gael?**

**A:** Mae Kidney Care UK yn cynnig Grantiau Gwyliau i gleifion i helpu gyda'r gost sy'n gysylltiedig â DAFB, ni fydd hyn yn talu am gost y dialysis. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Kidney Care UK. Kidney Care UK – Get Support; Patient Grants

**C: A fydd yn rhaid i mi drefnu a thalu am fy nghludiant fy hun i'r uned dros dro ac oddi yno?**

**A:** Ar gyfer cleifion o Gymru sy'n mynychu uned yng Nghymru, os ydych yn gymwys ar gyfer y Gwasanaeth Cludo Cleifion Di-frys (NEPTS), yna efallai y bydd gennych hawl i gludiant ambiwlans. Fodd bynnag, bydd angen cytuno ar hyn drwy eich uned dialysis leol a Hwb Arennol Gwasanaeth Ambiwlans Cymru cyn eich cyfnod DAFB. Byddai'r gwasanaeth hwn yn amodol ar argaeledd. Cofiwch ganslo eich cludiant i'ch uned dialysis 'arferol' tra byddwch i ffwrdd.

Ar gyfer unrhyw senario arall o DAFB bydd yr holl gostau cludo yn gyfrifoldeb y claf.

**C: Pa bethau eraill y mae angen i mi eu hystyried a'u rhoi ar waith cyn i mi fynd ar wyliau?**

**A:** Mae sawl peth y bydd yn rhaid i chi eu rhoi yn eu lle cyn mynd ar wyliau neu fynd i uned dros dro arall o dan y DAFB.

| | |
|---|---|
| **Cymeradwyaeth glinigol a** | Cyn i chi ddechrau trefnu unrhyw DAFB, bydd angen i chi siarad â'ch tîm clinigol i sicrhau eu bod yn |

| | |
|---|---|
| **chymeradwyaeth cyllid** | cymeradwyo'ch DAFB ac yn cymeradwyo'r uned y byddwch yn mynychu. Hefyd, bydd angen i gyllid ar gyfer dialysis gael ei gymeradwyo gan CBCGC cyn DAFB. |
| **Cerdyn Yswiriant Gofal Iechyd Byd-eang (GHIC) neu Gerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC) dilys** | Mae'r cardiau hyn yn bwysig i sicrhau y gallwch gael mynediad at ddialysis a gynigir gan y wladwriaeth/Llywodraeth pan fyddwch yn ymweld â gwledydd yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd ((AEE) sy'n cwmpasu gwledydd yn yr Undeb Ewropeaidd (UE) ynghyd â Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a Norwy) a'r Swistir.<br><br>Mae rhagor o wybodaeth sy'n cynnwys dolen i wneud cais am GHIC y DU ar gael yma https://www.nhs.uk/using-the-nhs/healthcare-abroad/apply-for-a-free-uk-global-health-insurance-card-ghic/ |
| **Yswiriant Teithio** | Mae'n bwysig iawn bod gennych yswiriant teithio a meddygol cynhwysfawr i'ch diogelu tra byddwch i ffwrdd o'r DU. Gallai'r costau posibl y byddai'n rhaid i chi eu talu pe byddech angen unrhyw driniaeth feddygol ychwanegol tra byddwch i ffwrdd gyrraedd miloedd o bunnoedd yn hawdd. Mae'n bwysig gwirio'r print mân am unrhyw eithriadau a allai fod yn berthnasol am ofal iechyd dramor sy'n cael ei gwmpasu o dan y polisi yswiriant. |

**C: Beth ddylwn i ei wneud am feddyginiaeth?**

**A:** Mae'n ddoeth cynllunio pa feddyginiaethau y bydd eu hangen arnoch i dalu am eich arhosiad a chymryd y rheini gyda chi. Os ydych chi'n teithio ar awyren, dylech chi ystyried rhoi eich meddyginiaethau yn eich bagiau llaw a gwirio gyda darparwyr teithio beth yw eu polisïau (os o gwbl) ar gario/datgan meddyginiaethau ac offer meddygol. Os gallwch chi gario presgripsiwn ailadroddus gyda chi dylai hynny ddarparu tystiolaeth ymarferol.

# Cyngor a gwybodaeth ddefnyddiol

| | | |
|---|---|---|
| Kidney Care UK | 0808 801 00 00 | DAFB<br>Gwnewch gais am grant cleifion gan Kidney Care UK |
| Cyngor teithio Kidney Care UK | | https://kidneycareuk.org/kidney-disease-information/living-with-kidney-disease/travelling-with-ckd |
| Dialysis Freedom CIC mewn partneriaeth â Kidney Care UK (ar gyfer DAFB yn y DU) | 01509 808668 | www.dialysisfreedom.co.uk<br><br>info@dialysisfreedom.co.uk |
| Freedom The Dialysis Holiday specialists (ar gyfer DAFB y tu allan i'r DU) | 01509 815999 | www.holidaydialysis.co.uk<br>e-bost: info@holidaydialysis.co.uk |
| Rhwydwaith Arennau Cymru (WKN) | | Rhwydwaith Arennau Cymru (WKN) |